NDA Monthly Update

May 2018

Summary

- New Chair for Sellafield Ltd announced
- NDA publishes Business Plan 2018-2021
- £2.6 million for new business hub in Cumbria
- Robots take heat out of nuclear challenges
- Scotland Minister visits Dounreay
- Princess unveils plaque at archive opening
- Latest NDA digital newsletter available
- NDA Commercial Director speaks at conference
- Report on support for communities
- Gender pay gap across the group
- Public Accounts Committee publishes Magnox report
- Robots compete in £8.5 million challenge
- DRS braves the Beast from the East
- Drone rises to the challenge
- New college for nuclear launched

Diary Dates 2018

• Nuclear Decommissioning Europe conference, Manchester	24 May
• Nuclear Industry Association's Decom2018, London	18-19 June
• NDA's Stakeholder Summit, Berkeley	10-11 July
• World Nuclear Association Symposium, London	5-7 September

New Chair of Sellafield Ltd Board

NDA Chief Executive David Peattie named Lorraine Baldry OBE as the new Chair of the NDA subsidiary, Sellafield Ltd. Lorraine has extensive experience in senior roles across a range of international companies and high-profile public sector organisations, including Thames Water, the Olympic Delivery Authority and London and Continental Railways Ltd. She has already gained valuable experience of working within the nuclear industry in her role as Chair of the Radioactive Waste Management Advisory Council.

Weblink: New Sellafield Ltd Chair announced

NDA publishes Business Plan 2018-2021

The NDA's Business Plan has now been published following a 12-week consultation launched in December 2017 and approval by the government. The Plan outlines key activities and expected progress for all 17 NDA sites over the next 3 years, as well as forecast income and expenditure for the coming financial year.

Weblink: NDA Business Plan

£2.6 million invested in new business hub

Sellafield Ltd is investing £2.6 million to convert a derelict transport exchange in Whitehaven into a £4.1 million hothouse for tech, digital, media, and creative start-ups. Called the Buzz Station, the scheme is being funded by Sellafield Ltd's owner, the NDA, and is part of a wider £300 million regeneration of the town led by BEC and partners, including Whitehaven Harbour Commissioners and Copeland Borough Council.

Weblink: Bus station transformation project

Robots take heat out of world nuclear challenges

Two NDA representatives reflect on a technology-packed US conference on radioactive waste management in Phoenix. The robotics-themed event provided opportunities to share the innovative technologies that NDA and Innovate UK have helped to financially support in recent years and learn more about the international robotic technologies.

Weblink: World of robots and learning opportunities

Lord Duncan learns of Dounreay challenges

The NDA welcomed Lord Duncan of Springbank, Parliamentary Under Secretary of State in the Scotland Office, to Dounreay. The visit was, he said, was a fascinating opportunity to see decommissioning at first-hand and meet the men and women behind the work. "I was impressed with the commitment to safety, as well as the considerable investment the NDA and Dounreay are making in the community," he added.

Weblink: Dounreay visit for Scotland Minister

Princess unveils plaque at official opening of archive

Her Royal Highness The Princess Royal unveiled a commemorative plaque marking the official opening of Nucleus (The Nuclear and Caithness Archives) in Wick. After being welcomed by NDA Chief Executive David Peattie, The Princess Royal toured the NDA's £21 million facility before meeting a range of local community representatives and unveiling the plaque. Nucleus will house records from all NDA sites, as well as records for the future Geological Disposal Facility and a collection of local Caithness records that have outgrown their existing home.

Weblink: Royal guest at archive

Latest NDA digital newsletter now available

The NDA has published the second edition of its new digital newsletter #Decomm. The newsletter contains a selection of views and news from around the NDA's sites. Sign up for regulator updates.

Weblink: #Decomm

Commercial Director to speak at conference

NDA Commercial Director Kate Ellis will be one of the main speakers for this summer's Decom 2018 conference in London, organised by the Nuclear Industry Assocation. Kate joined the NDA in November 2017, taking responsibility for all of the organisation's procurement, contract management and commercial activities associated with cleaning up the UK's civil nuclear legacy.

Weblink: Kate Ellis confirmed as speaker

NDA's support for communities

The NDA has published a report outlining details of socio-economic spend by its businesses during the financial year 2016/17. Totalling more than £20 million, a number of projects have been supported ranging from Wick Harbour in the north of Scotland to economic opportunities near Romney Marshes in the south of England.

Weblink: Socio-economic report published

Gender pay gap

The NDA has published details of the gap in average earnings between men and women within its organisation and across the group. Across the whole group, the varying degrees of gender pay gaps range from 12 to 40%. The gaps are due to a number of factors, including the uneven distribution of men and women across the pay grades, with a far greater proportion of men in the higher grades.

Weblink: Gender pay gap report

Public Accounts Committee publishes Magnox report

The government's Public Accounts Committee (PAC) has published its report into the Magnox clean-up contract. The report was published after MPs on the PAC held a hearing into the NDA's 2014 award of the contract to the Cavendish Fluor Partnership, a decision that was the subject of a legal claim that resulted in a financial settlement for one of the losing bid consortia in the competition.

Weblink: Magnox contract report published

Robots compete in £8.5 million research challenge

Robots controlled by smart auto-navigation systems are doing battle in an £8.5 million competition to find new ways to tackle some of Sellafield's most radioactive hotspots. Last year, the NDA and Innovate UK launched a search for technologies that could be combined into a single seamless process for use in facilities that will soon embark on a major decommissioning journey. Five ideas have made it through to the final stages.

Weblink: NDA's integrated innovation competition

DRS braves the Beast from the East

As the UK was fighting against recent extreme weather conditions, Direct Rail Services helped Network Rail keep the nation moving by clearing snow from train lines. The NDA's specialist rail freight subsidiary locos supported Network Rail with its effort to return the rail network to normal, patrolling important routes to keep them open and driving snow ploughse through the many drifts.

Weblink: helping keep the nation on track

Drone rises to the challenge

NDA R&D funds helped two UK businesses develop a small drone that will measure radiation levels at Japan's damaged Fukushima power plant. The lightweight RISER drone, which uses lasers to navigate inside hazardous facilities where GPS signals cannot reach, has been used successfully at Sellafield. RISER combines two separate pieces of cutting-edge technology developed by Bedford's Blue Bear and Cockermouth-based Createc. Each received R&D funding through the NDA and Innovate UK.

Weblink: Technologies support Fukushima clean-up

New National College for the nuclear industry launches

A new college has opened to train thousands in support of Britain's future nuclear programmes. The National College for Nuclear, with hubs in Cumbria (Lakes College) and Somerset (Bridgwater & Taunton College), is one of five National Colleges being established as part of the government's Industrial Strategy to develop a skilled industrial workforce and support long-term economic growth.

Weblink: Government's strategy for national colleges

Diweddariad Misol yr NDA

Mai 2018

Crynodeb

- Cyhoeddi Cadeirydd newydd Sellafield Ltd
- Yr NDA yn cyhoeddi Cynllun Busnes 2018-2021
- £2.6 miliwn i ganolfan fusnes newydd yn Cumbria
- Robotiaid yn ddifraw yn wyneb heriau niwclear
- Gweinidog yr Alban yn ymweld â Dounreay
- Tywysoges yn dadorchuddio plac yn agoriad yr archif
- Cylchlythyr digidol diweddaraf yr NDA ar gael
- Cyfarwyddwr Masnachol yr NDA yn siarad mewn cynhadledd
- Adroddiad ar gymorth i gymunedau
- Y bwlch cyflog rhwng y cyflogau ledled y grŵp
- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyhoeddi adroddiad Magnox
- Robotiaid yn cystadlu mewn her £8.5 miliwn
- Y DRS yn herio'r oerfel mawr o'r dwyrain
- Drôn yn codi i'r brig
- Lansio coleg niwclear newydd

Dyddiadau ar gyfer y Dyddiadur yn 2018

- Cynhadledd Datgomisiynu Niwclear Ewrop, Manceinion 24 Mai
- Decom2018 Cymdeithas y Diwydiant Niwclear, Llundain 18 -19 Mehefin
- Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr NDA, Berkeley 10-11 Gorffennaf
- Symposiwm Cymdeithas Niwclear y Byd, Llundain 5-7 Medi

Nuclear Decommissioning Authority

Diweddariad Misol yr NDA – Mai 2018

Cadeirydd Newydd Bwrdd Sellafield Ltd

Mae David Peattie, Prif Weithredwyr yr NDA, wedi enwi Lorraine Baldry OBE yn Gadeirydd newydd is-gwmni'r NDA, Sellafield Ltd. Mae gan Lorraine brofiad helaeth o gyflawni uwch rolau ar draws amrywiaeth o gwmnïau rhyngwladol a sefydliadau sector cyhoeddus uchel eu proffil, gan gynnwys Thames Water, Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, a London and Continental Railways Ltd. Mae hi eisoes wedi ennill profiad gwerthfawr o weithio yn y diwydiant niwclear yn sgil ei rôl fel Cadeirydd y Cyngor Cynghori ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol.

Dolen: Cyhoeddi Cadeirydd newydd Sellafield Ltd

Yr NDA yn cyhoeddi Cynllun Busnes 2018-2021

Mae Cynllun Busnes yr NDA wedi cael ei gyhoeddi yn dilyn ymgynghoriad 12 wythnos a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2017 ac ar ôl cael ei gymeradwyo gan y llywodraeth. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweithgareddau allweddol a'r cynnydd a ddisgwylir ar gyfer 17 safle'r NDA yn ystod y 3 blynedd nesaf, yn ogystal â rhagolygon o ran incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Dolen: Cynllun Busnes yr NDA

Buddsoddi £2.6 miliwn mewn canolfan fusnes newydd

Mae Sellafield Ltd yn buddsoddi £2.6 miliwn i addasu cyfnewidfa drafnidiaeth segur yn Whitehaven yn ganolbwynt gwerth £4.1 miliwn ar gyfer busnesau newydd ym meysydd technoleg, digidol, cyfryngau a chreadigol. Buzz Station ydy enw'r cynllun, sy'n cael ei ariannu gan berchennog Sellafield Ltd, yr NDA. Mae'n rhan o gynllun adfywio ehangach gwerth £300 miliwn ar gyfer y dref, wedi'i arwain gan BEC a phartneriaid, gan gynnwys Comisiynwyr Porthladd Whitehaven a Chyngor Bwrdeistref Copeland.

Dolen: Prosiect trawsnewid gorsaf fysiau

Robotiaid yn ddifraw yn wyneb heriau niwclear y byd

Mae dau o gynrychiolwyr yr NDA yn adlewyrchu ar gynhadledd lawn technoleg yn yr Unol Daleithiau. Roedd y gynhadledd yn Phoenix, oedd â'r thema robotiaid, yn canolbwyntio ar reoli gwastraff ymbelydrol ac yn gyfle i rannu'r technolegau arloesol mae'r NDA ac Innovate UK wedi helpu i'w cefnogi'n ariannol dros y blynyddoedd diwethaf, ac i ddysgu mwy am dechnolegau robotaidd rhyngwladol.

Dolen: Byd y robotiaid a chyfleoedd dysgu

Yr Arglwydd Duncan yn dysgu am heriau Dounreay

Croesawodd yr NDA yr Arglwydd Duncan o Springbank, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa'r Alban, i Dounreay. Dywedodd fod yr ymweliad yn gyfle hynod o ddiddorol i weld datgomisiynu â'i lygaid ei hun, ac i gyfarfod y dynion a'r merched sy'n

gyfrifol am y gwaith. “Gwnaeth yr ymrwymiad i ddiogelwch gryn argraff arna’ i, yn ogystal â’r buddsoddiad sylweddol mae’r NDA a Dounreay yn ei wneud yn y gymuned,” ychwanegodd yr Arglwydd Duncan.

Dolen: Gweinidog yr Alban yn ymweld â Dounreay

Tywysoges yn dadorchuddio plac yn agoriad swyddogol yr archif

Cafodd plac coffa ei ddadorchuddio gan Ei Mawrhydi, Y Dywysoges Frenhinol, i nodi agoriad Nucleus (Archifau Niwclear a Caithness) yn Wick. Ar ôl cael ei chroesawu gan David Peattie, Prif Weithredwr yr NDA, bu’r Dywysoges Frenhinol ar daith o amgylch cyfleuster £21 miliwn yr NDA cyn cwrdd ag ystod o gynrychiolwyr o’r gymuned leol a dadorchuddio'r plac. Bydd cofnodion o holl safleoedd yr NDA yn cael eu cadw yn Nucleus, yn ogystal â chofnodion ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol y dyfodol, a chasgliad o gofnodion Caithness lleol sydd wedi mynd yn rhy fawr i'w cartref presennol.

Dolen: Gwestai brenhinol yn yr archif

Cylchlythyr digidol diweddaraf yr NDA ar gael nawr

Mae'r NDA wedi cyhoeddi ail rifyn ei gylchlythyr digidol newydd #Decomm. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys detholiad o safbwyntiau a newyddion ledled safleoedd yr NDA. Cofrestrwch i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

Dolen: #Decomm

Cyfarwyddwr Masnachol i siarad mewn cynhadledd

Kate Ellis, Cyfarwyddwr Masnachol yr NDA, fydd un o'r prif siaradwyr yng nghynhadledd Decom 2018 yn Llundain yr haf hwn, sydd wedi cael ei drefnu gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear. Ymunodd Kate â'r NDA ym mis Tachwedd 2017, gan gymryd cyfrifoldeb dros holl waith caffael, rheoli contractau a gweithgarwch masnachol y sefydliad, sy’n ymwneud â glanhau etifeddiaeth niwclear sifil y DU.

Dolen: Kate Ellis yn cael ei chadarnhau fel siaradwr

Yr NDA yn cefnogi cymunedau

Mae’r NDA wedi cyhoeddi adroddiad sy’n nodi manylion gwariant economaidd-gymdeithasol ei fusnes yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17. Mae gwerth dros £20 miliwn o brosiectau wedi cael eu cyhoeddi, sy’n amrywio o Harbwr Wick yng ngogledd yr Alban i gyfleoedd economaidd ger Corsydd Romney yn ne Lloegr.

Dolen: Cyhoeddi adroddiad economaidd-gymdeithasol

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Mae’r NDA wedi cyhoeddi manylion y bwlch rhwng enillion cyfartalog dynion a merched yn ei sefydliad a ledled y grŵp. Ledled y grŵp cyfan, mae graddfeydd y bylchau cyflog

rhwng y rhywiau yn amrywio o 12 i 40% Ceir y bylchau o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys dosbarthiad anghyfartal o ddynion a merched ledled y graddfeydd cyflog, gyda chyfran llawer mwy o ddynion yn y graddfeydd uwch.

Dolen: Adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cyhoeddi adroddiad Magnox

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei adroddiad ar gontract glanhau Magnox. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar ôl i Aelodau Seneddol ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gynnal gwrandawiad ynglŷn â dyfarnu contract â Phartneriaeth Cavendish Fluor i'r NDA yn 2014, penderfyniad a oedd yn sail i hawliad cyfreithiol a arweiniodd at setliad ariannol i un o'r consortia a gyflwynodd gynnig ac a gollodd yn y gystadleuaeth.

Dolen: Cyhoeddi adroddiad ar gontract Magnox

Robotiaid yn cystadlu mewn her ymchwil £8.5 miliwn

Mae robotiaid sy'n cael eu rheoli gan systemau awto-lwybro clyfar yn brwydro mewn cystadleuaeth £8.5 miliwn i ganfod ffyrdd newydd o fynd i'r afael â rhai o fannau mwyaf ymbelydrol Sellafield. Y llynedd, fe lansiwyd ymgyrch gan yr NDA ac Innovate UK i chwilio am dechnolegau y gellid eu cyfuno i greu un proses gydlynol i'w defnyddio mewn cyfleusterau a fydd yn dechrau proses ddatgomisiynu sylweddol yn fuan. Mae pum cynnig wedi cyrraedd y camau terfynol.

Dolen: Cystadleuaeth arloesi integredig yr NDA

Y DRS yn herio'r oerfel mawr o'r dwyrain

Wrth i'r DU frwydro yn erbyn amodau tywydd eithafol yn ddiweddar, fe roddodd Direct Rail Services help llaw i Network Rail gadw'r wlad yn symud drwy glirio eira oddi ar reilffyrdd. Aeth locos cynorthwyo cludiant rheilffyrdd arbenigol yr NDA ati i gynorthwyo Network Rail â'i ymdrechion i adfer y rhwydwaith rheilffyrdd i'w gyflwr arferol, drwy gadw llygad ar lwybrau pwysig er mwyn sicrhau eu bod yn aros ar agor a gyrru erydr eira drwy'r lluwchion niferus.

Dolen: cadw'r wlad ar y trywydd iawn

Drôn yn codi i'r brig

Mae cronfeydd Ymchwil a Datblygu'r NDA wedi helpu dau fusnes yn y DU i ddatblygu drôn bach a fydd yn mesur lefelau ymbelydredd yn yr orsaf bŵer sydd wedi'i difrodi yn Fukushima, Japan. Mae'r drôn ysgafn, RISER, sy'n defnyddio laser i ddod o hyd i'w ffordd o gwmpas y tu mewn i gyfleusterau peryglus na all signal GPS eu cyrraedd, wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn Sellafield. Mae RISER yn cyfuno dau ddarn ar wahân o dechnoleg flaenllaw sydd wedi cael eu datblygu gan gwmni Blue Bear o

Bedford a chwmni Createc o Cockermouth. Cafodd y ddau gwmni gyllid Ymchwil a Datblygu gan yr NDA ac Innovate UK.

Dolen: Technolegau'n helpu i lanhau Fukushima

Lansio Coleg Cenedlaethol newydd ar gyfer y diwydiant niwclear

Mae coleg newydd, a fydd yn hyfforddi miloedd o bobl er mwyn cefnogi rhaglenni niwclear Prydain yn y dyfodol, wedi agor. Mae'r Coleg Niwclear Cenedlaethol, sydd â chanolfannau yn Cumbria (Coleg y Llynnoedd) ac yng Ngwlad yr Haf (Coleg Bridgwater a Taunton), yn un o'r pum Coleg Cenedlaethol sy'n cael eu sefydlu fel rhan o Strategaeth Ddiwydiannol y Llywodraeth i ddatblygu gweithlu diwydiannol medrus a chefnogi twf economaidd tymor hir.

Dolen: Strategaeth y llywodraeth ar gyfer colegau cenedlaethol